

7. YSTRYDEBAU AC EICONAU Y GWLEDYDD CELTAIDD

Efallai y byddai'r Americanwr cyffredin yn gallu sôn am ryw gysylltiadau amwys â'r Alban ac Iwerddon ond byddai'n anos iddynt ddweud unrhyw beth am Gymru (os na fyddai'n rhywbeth i'w wneud â Thywysog(ion) Cymru neu'r ferf Saesneg 'to welsh'). Ni sylwir mewn gwirionedd ar wledydd llawer llai Cernyw ac Ynys Manaw, nac ychwaith Llydaw sy'n llawer mwy o faint oherwydd ei bod wastad wedi bod o dan ddylanwad Ffrainc yn hytrach na Lloegr. Serch hynny mae gan Saeson ystrydebau o'r Cymry fel y mae gan y Ffrancwyr ynghylch y Llydawyr. Y cwestiwn cyntaf y gallwn ei ofyn yw 'A yw'r ystrydebau hyn yn rhai cydnabyddedig?' ac yn ail 'Beth yw'r berthynas rhwng yr ystrydeb/stereotypeip a'r realiti?'. Nid yw llenyddiaeth ar ystrydebau o'r fath wastad ar gael yn hawdd, ond mae nifer yr ystrydebau yn addysgiadol i'n galluogi i ddysgu am y Celtiaid. Isod mae nifer o eiriau ac enwau sy'n agweddau ar bob diwylliant cenedlaethol.

7.1 YR HEN GELTIAID – 'DERWYDDON, MEDD A THROWSUS'

Mae'n llai posibl gwirio syniadau a geid ymysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid ynghylch y Celtiaid i gadarnhau ai ystrydebau neu nodweddion gwirioneddol ydynt na chyfnodau diweddarach oherwydd pellter amser a'r diffyg manylion. Mae Rankin (1987) yn llyfr defnyddiol sy'n edrych ar y farn am y Celtiaid sydd mewn Llenyddiaeth Glasurol, ac efallai byddai'n werth mynd ar ôl y canlynol: medd, trowsus (Gallia Braccata), gwallt hir (Gallia comata), derwyddon, rhyfelwyr, aberth dynol.

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

*RANKIN, H. David. 1987. *Celts and the Classical World*. (London: Croom Helm). (Penodau 4)

7.2 UCHELDIR YR ALBAN – 'CILTIAU, HAGIS A'R BAGBIB'

Dyma restr o eiconau, ystrydebau a nodweddion tybiedig am Ucheldir yr Alban y byddech am eu hastudio efallai (i weld a ydynt yn ystrydebol neu'n wir): ceirch, uwd, hakis, wisgi, grug, gwartheg yr Ucheldir (*Highland cattle*), claniau/tylwythau, dilynwyr/gweision (*gillies*), lluoedd milwrol yr Ucheldiroedd, ciltiau, brethyn yr Alban (*tartans*), bando (*shinty*), Sant Andreas (Andrew), Môd, cèilidhs, clirwelediad (*second sight*), Presbyteriaeth, Wee Frees, y Sabath, bacbibau, cyndynrwydd/caledi (*dourness*), mynyddoedd, lochs, Caledonia McBrayne, Saltire, Caledonia, Scotia.

Llyfryddiaeth Ddethol
(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

TREVOR-ROPER, Hugh 1983 'The invention of tradition: the Highland tradition of Scotland'.
Yn Terence Ranger & Eric Hobsbawm (goln). *The Invention of Tradition*. (Cambridge:
Cambridge University Press), 15–41.

7.3 IWERDDON – 'PASTYNAU, TATWS A LEPRECHAUNS'

Dyma restr o eiconau, ystrydebau a nodweddion tybiedig am Iwerddon y byddech am eu hastudio efallai (i weld a ydynt yn ystrydebol neu'n wir): tatws, *barm brack*, meillion (*shamrock*), cwrw du (Guinness), bleiddgwn Iwerddon (*Irish wolfhounds*), asynnod, wisgi tatws (*poteen*, *poitín*), telynau, pastwn (*shillelaghs*), malu awyr (*blarney*), Gwyddeleg-Saesneg (Hiberno-English), coblynnod (*leprechauns*), cyheuraethod (*banshees*), nafis, portreadau fel epa, chwarae hyrli (*hurling*), pêl-droed Gaelaidd, cwrwgl môr (*curraghs*), croesau Celtaidd, tyrau crwn, cranogau, celloedd meudwyod, Sant Padrig, céilís, Oireachtas na Gaeilge, patrymau (*pátrún*), Catholigiaeth, gwyrdd, yr ynys werdd (*the emerald isle*), y ffidil, bodhrán, bagbib (*uilleann pipes*), sean nós, caneuon gwrthryfelgar Iwerddon, 'Amhrán na bhFiann (Cân y Milwyr)', baner genedlaethol Iwerddon, prifddinas Iwerddon, TG4, Hibernia, Erin.

7.4 YNYS MANAW – 'CATHOD HEB GYNFFON'

Dyma restr o eiconau, ystrydebau a nodweddion tybiedig am Ynys Manaw y byddech am eu hastudio efallai (i weld a ydynt yn ystrydebol neu'n wir): cathod heb gynffonnau, defaid loaghtan, Tynwald, Yn Chruinnaght, Rasys TT, baner Ynys Manaw, diwrnod cenedlaethol Manaw (5ed o Orffennaf).

7.5 CYMRU – 'DERWYDDON, CENNIN AC EISTEDDFODAU'

Dyma restr o eiconau, ystrydebau a nodweddion tybiedig am Gymru y byddech am eu hastudio efallai (i weld a ydynt yn ystrydebol neu'n wir): caws pob (*Welsh Rarebit*), bara lawr (*Laver Bread*), Bara Brith, caws Caerffili, cennin, cennin Pedr, draig, defaid, gwartheg Duon Cymreig, corgis, bugeiliaid, porthmyn, derwyddon, y Wisg Gymreig, rygbi, cwryglau, glofeydd, chwareli llechi, Dewi Sant, Eisteddfod, Gorsedd, Tywysog Cymru, Welsh Not, Anghydffurfiaeth, Calfiniaeth, Methodistiaeth, emynau, gwlad y gân, 'Hen Wlad fy Nhadau', corau, gwlad y menig gwynion, hwyl, huodledd, emosiwn, cerdd dant, mynyddoedd, baner genedlaethol Cymru, prifddinas Cymru, S4C, cefndryd Cymreig, *to welsh*, Cambria, Wallia (Gwalia), Gomer.

Llyfryddiaeth Ddethol
(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

MORGAN, Prys. 1983. 'From death to a view: the hunt for the Welsh past in the Romantic period'. Yn Terence Ranger & Eric Hobsbawm (goln). *The Invention of Tradition*. (Cambridge: Cambridge University Press), 43–100.

7.6 GORLLEWIN LLYDAW – 'Y GLOCSSEN, CREMPOGAU A BOMBARDIAU'

Dyma restr o ystrydebau ac eiconau Llydewig y byddech am eu hastudio efallai (i weld a ydynt yn ystrydebol neu'n wir, gyda'r cyfatebol yn Ffrangeg mewn cromfachau i'r rhai sy'n hyddysg mewn Ffrangeg): tatws (patates, pommes-de-terre), crempogau (crêpes), seidr (cidre), chouchenn (hydromel), y glocsen, coiffes, y carlwm, *korrigans*, pysgotwyr (pêcheurs), gourenn, Goursez, Sant Erwan (Sant Yves), Conan Meriadoc, Ar Veuc'h (La Symbole), y bacbib, yr offeryn bombard (bombardes), Gouel ar Brezhoneg, pardons, fest noz, Catholigiaeth (Catholicisme), kan ha diskan, gwerz, 'Bro Goz ma Zadou', gweunydd (landes), meini hirion *standing stones*, prif ddinas(oedd) Llydaw, meddwod, baner Llydaw (Le Gwenn ha Du), teledu Breizh, cefndryd Llydewig (cousins de Bretagne).

7.7 CERNYW – 'PASTEIOD'

Dyma restr o ystrydebau ac eiconau am Gernyw yr hoffech ymchwilio iddynt efallai (i weld a ydynt yn ystrydebol neu'n wir): pasteiod, hufen tolch (*clotted cream*), brain Cernyw (*chough*), coblynnod (*piskies*), pysgotwyr, smyglwyr, mwyngloddio tun, Stanari, wreslo Cernywaidd, Gorseth, Sant Pyran, y Brenin Arthur, Dugiaeth Cernyw, Anghyddfurfiaeth, Wesleaeth, teyrngarwch i lwythi/tylwyth (*clannishness*), Cousin Jack, y gân 'Trelawny' ('The Song of the Western Men'), 'Bro Goth agan Tasow', baner Cernyw (un Sant Pyran).